



MENYWOD A MERCHED AG ASD AC
ADHD HEB ADNABYDDIAETH,
DIAGNOSIS A CHYMORTH DIGONOL AC
Â CHAMDDIAGNOSIS

Nodiadau Briffio Rhestr Fer Cynigion



Menywod a Merched ag ASD ac ADHD heb adnabyddiaeth, diagnosis a chymorth digonol ac â chamddiagnosis

Mae menywod a merched sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig (ASD) ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) yn mynd heb ddiagnosis. Mae FfCSyM yn galw ar y llywodraeth a chyrff ariannu i ariannu ymchwil i ASD ac ADHD mewn benywod, ac i gamau gael eu cymryd i wella'r broses o wneud diagnosis i fenywod a merched, er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu i reoli'r cyflyrau hyn yn well ac nad ydynt yn dioddef yn ddistaw. Mae FfCSyM hefyd yn galw ar aelodau SyM i godi ymwybyddiaeth yn eu Sefydliadau o'r problemau mae menywod a merched ag ASD ac ADHD yn eu hwynebu.

Safbwynt y cynigydd

Mae'r cynigydd eisiau i'r Llywodraeth a gweithwyr proffesiynol blaenllaw neilltuo arian ar gyfer ymchwil i ASD (anhwylder sbectrwm awtistig) ac ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd). Mae'r cynigydd hefyd yn galw am i offer diagnostig addas i'r oedran ac addas i'r rhywedd gael eu datblygu, ac am hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill, ac am godi ymwybyddiaeth mewn Sefydliadau.

Maint y broblem

Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD) yw'r enw meddygol ar awtistiaeth. Mae awtistiaeth yn anableded datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar y ffordd mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd.

Mae Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) yn gyflwr sy'n effeithio ar ymddygiad pobl.

Er bod prif elfennau ASD ac ADHD yn wahanol, gallant rannu rhai o'r un symptomau a phroblemau.

Gall pobl ag ADHD ymddangos yn aflonydd, gallant gael trafferth i ganolbwyntio a gallant weithredu'r fyrbwyll. Mae symptomau ADHD yn gwella wrth fynd yn hŷn fel arfer, ond mae llawer o oedolion a gafodd ddiagnosis o'r cyflwr pan oeddent yn ifanc yn dal i gael problemau. Gall pobl ag ADHD hefyd gael problemau ychwanegol fel anhwylderau cwsg a gorbryder.

Gall ASD achosi heriau cymdeithasol, heriau o ran cyfathrebu a heriau o ran ymddygiad. Yn ôl NHS Lloegr, gall pobl awtistig ei chael yn anodd cyfathrebu a rhyngweithio â phobl eraill, gallant ei chael yn anodd deall sut mae pobl eraill yn meddwl neu'n teimlo, gall pethau fel goleuadau llachar neu synau uchel eu gorlethu, achosi straen iddynt neu fod yn anghyfforddus iddynt, gallant fynd yn bryderus neu'n ypsét am sefyllfaoedd anghyfarwydd a digwyddiadau cymdeithasol, a gallant gymryd mwy o amser i ddeall gwybodaeth neu fod â phatrymau ailadroddus o feddwl neu ymddwyn.

Yn y gorffennol nodwyd bod ASD ac ADHD yn effeithio ar ddynion a bechgyn yn bennaf gan olygu bod menywod a merched wedi cael eu hesgeuluso neu wedi cael camddiagnosis. Yn ôl Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, mae dynion a bechgyn dair gwaith yn fwy tebygol na menywod a merched o gael diagnosis o awtistiaeth.

Gall ADHD ymddangos yn wahanol mewn merched. Yn amlach disgrifir bechgyn fel 'gorfywiog' ac yn amlach disgrifir merched fel 'heb fod yn talu sylw' neu fel cyfuniad o heb fod yn talu sylw a gorfywiog. Yn aml mae menywod a merched yn well am guddio neu gelu eu hanawsterau. Yn gyffredinol, maent yn 'mewnoli' yn fwy na bechgyn, sy'n golygu eu bod yn tueddu i'w cosbi eu hunain am eu problemau yn hytrach nag eraill.

Yn ôl Canolfan Awtistiaeth Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, yn aml nid yw gweithwyr proffesiynol yn adnabod a deall y ffyrdd gwahanol y gall awtistiaeth ymddangos mewn menywod a merched. Mae arbenigwyr niwroddatblygiadol a seicolegwyr clinigol yn pwysleisio y gall symptomau ADHD mewn menywod gael eu camddeall a gellir rhoi camddiagnosis ohonynt yn aml gan weithwyr iechyd proffesiynol, sy'n eu camgymryd am straen, gorbryder neu gyflwr cysylltiedig arall.

Y sefyllfa bresennol

Yn ôl yr elusen Autistica, mae swm yr arian a fuddsoddwyd gan sefydliadau ariannu yn y DU mewn ymchwil i awtistiaeth yn y DU wedi treblu o 2013 i 2016, gan newid y buddsoddiad am bob person awtistig o £5 i £15.

Ym mis Gorffennaf 2021, lansiodd Llywodraeth y DU ei strategaeth awtistiaeth bum mlynedd i Loegr. Mae'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd y gall awtistiaeth effeithio ar bobl mewn ffordd wahanol, gan gynnwys y gwahaniaeth yn y ffordd mae menywod a merched awtistig yn ymgyflwyno. Dyma'r unig gyfeiriad at fenywod a merched yn y Strategaeth drwyddi draw. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymrwymo i lunio cynllun gweithredu ymchwil yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth er mwyn nodi blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Fodd bynnag, mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth wedi codi pryder na nododd yr Adolygiad o Wariant 2021 sut y caiff y strategaeth awtistiaeth ei hariannu ar ôl ei blwyddyn gyntaf.

Parhawyd i bwysleisio'r angen am ragor o fuddsoddi mewn ymchwil i awtistiaeth. Ym mis Tachwedd 2021, arweiniodd Robert Buckland CF AS ddadl ar arian ar gyfer ymchwil i awtistiaeth a niwroamrywiaeth yn Nhŷ'r Cyffredin lle galwodd am newid mawr yn y ffordd y gwneir diagnosis o awtistiaeth a'r ffordd y caiff ei thrin.

Yn ystod y ddadl, dywedodd y Gweinidog Gofal ac Iechyd Meddwl, Gillian Keegan, mai un o'r heriau yw bod bylchau yn y wybodaeth ynghylch pa wasanaethau a chymorth sy'n gweithio orau i bobl. Aeth ymlaen i ddweud bod arnom angen gwell dystiolaeth am effeithiau cuddio a diagnosis annigonol o awtistiaeth i fenywod a merched.

Mae ymchwil ar waith ar hyn o bryd i wella proses gwneud diagnosis o awtistiaeth i blant, yn dilyn ymrwymiad yng Nghynllun Hirdymor y GIG 2019 i brofi a gweithredu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau amserau aros ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Nod Astudiaeth Llwybr Diagnosis Awtistiaeth, a arweinir gan Sussex Community NHS Foundation Trust, yw dod o hyd i fodelau er mwyn cyflawni hyn. Yn ôl Autistica, y gobaith yw y bydd yr astudiaeth hon yn darparu gwybodaeth ar gyfer diweddariadau i'r canllawiau presennol gan NICE ar gyfer gwneud diagnosis o awtistiaeth.

Fel rhan o waith ehangach i wella'r llwybr diagnosis, dywedodd y Gweinidog Plant a Theuluoedd, Will Quince, ym mis Rhagfyr 2021 bod NHS England/Improvement yn edrych ar ffyrdd o wella ansawdd diagnosis i ferched.

Sut allai SyM weithio ar y mater hwn pe câi ei basio?

Byddai ymgyrch lawn yn cael ei datblygu gan FfCSyM pe câi'r cynnig ei basio, gan gymryd i ystyriaeth y datblygiadau ers hynny. Er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer eich trafodaethau, dyma rai ffyrdd y gallai SyM ystyried gweithio ar y mater hwn.

Ar lefelau lleol a rhanbarthol, gallai Sefydliadau a ffederasiynau ddysgu am ASD ac ADHD ac ystyried sut y gallant fod yn gynhwysol i fenywod sydd â'r cyflyrau hyn. Gallai aelodau SyM hefyd ymchwilio i gyfleoedd gwirfoddoli lleol gydag elusennau arbenigol, ac edrych ar amserau aros am ddiagnosis yn eu hardaloedd nhw.

Yn genedlaethol, gallai FfCSyM ymgysylltu â sefydliadau arbenigol sy'n darparu cyngor neu gymorth arbenigol mewn perthynas â diagnosis o ASD ac ADHD mewn menywod a merched a chyfrannu at fentrau codi ymwybyddiaeth sy'n bodoli eisoes.

Gallai FfCSyM hefyd alw ar gyrff iechyd cyhoeddus i gynnal ymgyrchoedd gwell o ran gwybodaeth y cyhoedd yn canolbwyntio ar arwyddion ASD ac ADHD mewn menywod a merched.

Gallai FfCSyM hefyd ymgyrchu dros ragor o ymchwil i ASD ac ADHD mewn menywod a merched.

Pwyntiau i'w hystyried:

- Mater o gydraddoldeb rhywiol yw hwn a byddai'n cyd-fynd yn dda â'n hymgyrch a'n gwaith sefydliadol ehangach yn y maes hwn, yn ogystal â'n ffocws ar gynwysoldeb fel rhan o'n gweledigaeth strategol.
- Mae gan aelodau SyM gysylltiadau da yn eu cymunedau, a gallent ddefnyddio eu rhwydweithiau presennol i gyrraedd mwy o bobl gyda'r negeseuon allweddol ar y mater hwn.

- Mae'r cynnig yn ymwneud ag ASD ac ADHD y mae'r ddau ohonynt yn niwrolegol, ond cyflyrau gwahanol ydyn nhw. A fyddai ymgyrch gan SyM wedi'i thargedu at un cyflwr yn fwy effeithiol, neu a allai hwn fod yn gyfle i dynnu sylw at ddau fater pwysig?

Rhagor o wybodaeth

Y GIG: www.nhs.uk/conditions/attention-deficit-hyperactivity-disorder-adhd/

Y GIG: www.nhs.uk/conditions/autism/signs/

Autistica: www.autistica.org.uk/downloads/files/Autistica-Action-Briefing-Diagnosing-Autistic-Women-And-Girls.pdf

BBC Futures: www.bbc.com/future/article/20190530-why-is-adhd-missed-in-girls

Cynnwys fideo

ADHD in Women and Girls - Misconceptions:

www.youtube.com/watch?v=Ls3djLqwLhA

Manylion cyswllt yr adran Materion Cyhoeddus

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion neu'r broses cynigion, cysylltwch ag adran Materion Cyhoeddus FfCSyM.

Post: National Federation of Women's Institutes, 104 New Kings Road, London, SW6 4LY

Ffôn: 020 7371 9300

E-bost: publicaffairs@nfwi.org.uk

Gwefan: thewi.org.uk